# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 21 Mawrth 2012** |
| Amser: | **09:30 - 10:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300001_21_03_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones (Cadeirydd)**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Gwyn R Price**<br>**Ken Skates**<br>**Joyce Watson**<br>**Alun Ffred Jones (yn lle Rhodri Glyn Thomas)**<br>**Eluned Parrott (yn lle Peter Black)** |
| Tystion: | **Rhodri Glyn Thomas, Comisiynydd, Commissioner with responsibility for the Welsh Language**<br>**Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu, Comisiwn y Cynulliad**<br>**Gwyn Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol** |
| Staff y Pwyllgor: | **P Gareth Williams (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Owain Roberts (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1.1. Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor, y tystion ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.1.2. Cafwyd ymddiheuriadau ar gyfer eitem 2 gan Rhodri Glyn Thomas a Peter Black oherwydd eu swyddi yng Nghomisiwn y Cynulliad. Fodd bynnag, roedd Rhodri Glyn Thomas yn bresennol i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor yn rhinwedd ei swydd fel Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ac fel yr Aelod â chyfrifoldeb dros y Bil.

1.1.3. Croesawodd y Cadeirydd Alun Ffred Jones ac Eluned Parrott i'r cyfarfod, a oedd yn dirprwyo ar eu rhan, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

1.1.4. Croesawodd y Cadeirydd Peter Black a Rhodri Glyn Thomas a oedd yn bresennol ar gyfer eitemau 3, 4 a 5.

## 2. Bil Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol): Sesiwn Dystiolaeth Cyfnod 1 - Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rhodri Glyn Thomas AC, y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg.

2.2 Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 a 5.

## 4. Ystyried yr addroddiad drafft - Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Ariannol

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad a nododd y bydd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad.

## 5. Ystyried yr adroddiad drafft - Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.